

## Cynigion y Cabinet ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, 2002-3

### Datganiad i'r Cyfarfod Llawn

1. Yn ôl Rheol Sefydlog 31.10 mae'n ofynnol i'r Cabinet gyflwyno ei gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol Westminster i'r Cyfarfod Llawn cyn 31 Mawrth bob blwyddyn; mae rheolau sefydlog 31.9 a 31.11 yn nodi ffurf y cynnig hwn a'r wybodaeth sy'n ofynnol i'w gefnogi. Mae'r ddogfen hon yn bodloni'r ail ofyniad, ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth.

2. Roedd **Mesur GIG (Cymru)** yn destun cynnig llwyddiannus ar gyfer ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft y llynedd. Felly nid yw'n ymddangos yn y cynigion newydd hyn.

#### **Mesur Tir Comin (Cymru)**

3. Byddai'r Mesur hwn yn diwygio ac yn atgyfnerthu'r dull o reoli tir comin yng Nghymru. Ei brif effeithiau fyddai:

- sefydlu cymdeithasau rheoli tir comin, yn cynnwys ffermwyr â hawliau i bori stoc ar bob tir comin;
- rhoi pwerau i gymdeithasau o'r fath ddatblygu a gorfodi cyfundrefn bori ar gyfer pob tir comin, rheoli'r niferoedd sy'n pori a hyrwyddo lles anifeiliaid a bioamrywiaeth;
- rhoi pwerau gorolwg a chyfarwyddo i'r Cynulliad mewn perthynas â chymdeithasau rheoli tir comin.

4. Ni fyddai gan y Mesur unrhyw effaith ariannol ar y Cynulliad.

#### **Mesur Trwyddedau Sul (Cymru)**

5. Byddai'r Mesur byr hwn yn cael gwared ar yr angen i awdurdodau lleol gynnal poliau ar agor eiddo trwyddedig ar y Sul, lle byddai cais i wneud hynny. Wrth wneud hynny byddai'n cael gwared ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn faich rheoleiddiol ac ariannol diangen ar y fasnach drwyddedig ac awdurdodau lleol.

6. Ni fyddai gan y Mesur unrhyw effaith ariannol ar y Cynulliad. Ond byddai'n symud y baich ariannol oddi ar yr awdurdodau lleol: amcangyfrifir bod y pŵl ym 1996 yn Rhondda Cynon Taf wedi costio tua £60,000 i'r awdurdod.

#### **Mesur Dydd Gwyl Dewi Sant**

7. Byddai'r Mesur hwn yn gwneud Dydd Gwyl Dewi Sant yn wyl gyhoeddus yng Nghymru, drwy ddiwygio Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. Os gweithredir y cynnig, byddai angen i ni ymgynghori ymhellach cyn penderfynu a fyddai diwrnod o wyliau ar Ddydd Gwyl Dewi yn disodli gwyl sy'n bodoli eisoes, neu'n wyl ychwanegol.

8. Ni fyddai unrhyw effaith ariannol ar y Cynulliad yn deillio o'r cynnig hwn.

### **Cynllunio Defnydd Tir**

9. Y cynnig yw gweithredu cynigion ar y newidiadau i weithdrefnau cynllunio a luniwyd i gyflymu'r modd y mae'r system yn gweithredu a'i heglurder. Mae'r rhain yn agored i ymgynghoriad ar hyn o bryd yn dilyn Papur Gwyrdd yn Lloegr.

10. Nid oes unrhyw effeithiau ariannol ar y Cynulliad ac mae arbedion costau posibl i ddefnyddwyr y system gynllunio.

### **Mesur Addysg**

11. Y cynnig yw cryfhau gallu'r Cynulliad i weithredu cynigion yn y ddogfen ymbaratoi, *Y Wlad sy'n Dysgu*, drwy ymestyn grym statudol i ystod o bolisiâu sy'n cael eu gweithredu'n weinyddol ar hyn o bryd.

12. Ni fyddai unrhyw effeithiau ariannol ar y Cynulliad y tu hwnt i'r rhai a ragwelwyd eisoes ar gyfer talu Grantiau Dysgu'r Cynulliad.

### **Mesur Archwilio (Cymru)**

13. Byddai'r Mesur hwn yn uno swyddogaethau Comisiwn Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i greu un corff archwilio ar gyfer Cymru (fel sydd eisoes yn bodoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon).

14. Byddai'r corff hwn yn gyfrifol am y Cynulliad; cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad; awdurdodau iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG; a llywodraeth leol. Byddai gan y corff newydd un llinell o atebolrwydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru ond byddai'r trefniadau'n cydnabod annibyniaeth sefydliadol llywodraeth leol i'r un graddau â'r rhai presennol.

15. Byddai cost tymor byr i'r Cynulliad o £500,00 i £1 miliwn o bosibl, i sefydlu'r corff newydd. Yn y tymor hwy byddai arbedion maint yn gwrthbwysu hyn.

### **Mesur Ombwdsmon Tai (Cymru)**

16. Byddai'r Mesur byr hwn yn ymestyn cylch gwaith Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru i gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Wrth wneud hynny byddai'n darparu gwasanaeth ombwdsmon gwirioneddol i denantiaid landlordiaid o'r fath.

17. Byddai'r Mesur yn cynyddu baich achosion yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol o ryw chwarter o bosibl, a byddai hynny'n golygu rhai effeithiau ariannol dinod. Ni fyddai unrhyw effeithiau ariannol eraill ar y Cynulliad.

## **Mesur Cludiant i Deithwyr**

18. Y cynnig yw gweithredu argymhellion yr Adolygiad Polisi diweddar o Drafnidiaeth Gyhoeddus gan roi strwythurau trefniadol i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu trafnidiaeth gyhoeddus a rhoi pwerau cyfeirio i'r Cynulliad dros yr Awdurdod Rheilffordd Strategol.

Byddai'r effaith ariannol ar y Cynulliad yn dibynnu ar faint a math y newid trefniadol fyddai'n cael ei fabwysiadu.